

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976

AMODAU'R DRWYDDED YRRU DDEUOL AR GYFER GYRWYR CERBYD HACNAI/CERBYD HURIO PREIFAT

Cyffredinol

1. Ni roddir trwydded i unrhyw un nad yw ym marn y Cyngor yn addas ac yn briodol i fod yn yrrwr cerbyd hacnai/cerbyd hurio preifat.
2. Bydd y drwydded gyrrwr yn weithredol am flwyddyn ar ôl dyddiad olaf y mis cyn y rhoddir y drwydded. Bydd ceisiadau am adnewyddu a ddaw i law ar ôl y dyddiad darfod perthnasol yn cael eu hystyried yn geisiadau newydd ac yn cael eu trin felly.
3. Ni roddir trwydded i yrrwr hyd nes y bydd y ffi briodol wedi ei thalu. Os telir â siec sydd wedyn yn cael ei gwrthod, bydd y drwydded yn ddi-rym.
4. Dim ond caniatáu i'r gyrrwr yrru cerbyd a drwyddedwyd gan y Cyngor yn Gerbyd Hacnai/Cerbyd Hurio Preifat y mae'r drwydded.
5. Dim ond teithwyr sydd wedi archebu eu taith ymlaen llaw drwy weithredwr trwyddedig y bydd Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat yn eu derbyn. Ni chaniateir iddynt hysbysebu yn yr un modd â Cherbydau Hacnai eu bod ar gael i'w hurio a gellir eu herlyn os gwnânt hynny. Ni chaniateir i Yrrwyr Cerbydau Hurio Preifat arddangos arwyddion ac ati yn eu car neu arno, sy'n awgrymu y gellir hurio'r car.
6. Ni chaniateir i berchennog na gyrrwr cerbyd hacnai, pan fydd yn ceisio cael eraill i hurio ei gerbyd, fynd ar ofyn unrhyw un – drwy alw arnynt neu wneud unrhyw beth arall – i hurio cerbyd o'r fath ac ni chaniateir iddo/iddi ddefnyddio gwasanaethau unrhyw un arall at y diben hwn.
7. Os cyflogir y gyrrwr i yrru cerbyd hacnai neu gerbyd hurio preifat sy'n eiddo i rywun ac eithrio'r gyrrwr, neu os caniateir i'r gyrrwr yrru cerbyd o'r fath, rhaid i'r gyrrwr, cyn cychwyn gyrru'r cerbyd hwnnw, roi'r drwydded hon i'r perchennog hwnnw er mwyn iddo ef/hi ei chadw hyd nes y rhoddir gorau i gyflogi'r gyrrwr i yrru'r cerbyd neu unrhyw gerbyd arall o eiddo'r perchennog neu ganiatáu i'r gyrrwr wneud hynny.

Bathodyn Gyrrwr

8. Rhaid i'r gyrrwr, pan fydd yn gyrru'r cerbyd, wisgo ei Fathodyn Gyrrwr Cerbyd Hacnai/Cerbyd Hurio Preifat a hynny mewn modd sy'n golygu bod y bathodyn i'w weld yn glir bob amser.
9. Pan ddaw'r drwydded hon i ben (heb ei hadnewyddu'n ddi-oed), neu pan gaiff y drwydded hon ei dirymu neu ei hatal, rhaid i'r gyrrwr ddychwelyd i'r Cyngor, yn ddi-oed, y bathodyn gyrrwr a roddwyd iddo gan y Cyngor pan ganiatawyd y drwydded hon.

Ymddygiad y Gyrrwr

10. Rhaid i'r gyrrwr wneud fel a ganlyn: -
- Cludo swm rhesymol o fagiau/paciau
 - Rhoi cymorth rhesymol o ran llwytho a dadlwytho
 - Rhoi cymorth rhesymol o ran symud bagiau/paciau i/o fynedfa adeilad, gorsaf neu le y mae'n codi/gollwng cwsmer wrtho.
 - Bod yn lân ac yn rhesymol o ran ei wisg a'i wedd bob amser ac ymddwyn yn gwrtais ac yn drefnus.
 - Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau diogelwch teithwyr sy'n cael eu cludo mewn cerbyd a yrrir ganddo/ganddi, neu sy'n camu i'w gerbyd neu ohono.
 - Peidio ag ysmegu, yfed na bwyta yn y cerbyd heb ganiatâd penodol yr huriwr.
 - Peidio â defnyddio radio neu offeryn/offer sain yn y cerbyd heb ganiatâd penodol yr huriwr ac eithrio er mwyn anfon/cael negeseuon sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cerbyd.
 - Peidio ag achosi/caniatáu, ar unrhyw adeg, i'r sŵn a ddaw o radio neu offer eraill a grybwyllwyd eisoes ac sydd yn y cerbyd y mae ef/hi yn ei yrru, fod yn niwsans i unrhyw un, neu darfu ar unrhyw un, sydd y tu mewn i'r cerbyd neu'r tu allan iddo.
11. Rhaid i bob gyrrwr sy'n gyrru cerbyd trwyddedig beidio ag achosi/goddef/caniatáu i fwy o bobl na'r nifer a nodir yn y drwydded a roddwyd ar gyfer y cerbyd hwnnw, heb gyfrif y gyrrwr, gael eu cludo yn y cerbyd hwnnw.
12. Rhaid i'r gyrrwr beidio â chaniatáu i'r canlynol gael eu cludo yn sedd flaen cerbyd trwyddedig:
- Plentyn sy'n iau na deng mlwydd oed; neu
 - Fwy nag un unigolyn sy'n hŷn na'r oedran hynny.
13. Heb ganiatâd huriwr y cerbyd, ni chaniateir i'r gyrrwr gludo unrhyw un arall yn y cerbyd hwnnw na chaniatáu i unrhyw un arall gael ei gludo ynddo.

Newid Cyfeiriad

14. Rhaid i'r gyrrwr hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig am unrhyw newid yn ei gyfeiriad/chyfeiriad yn ystod cyfnod y drwydded a hynny cyn pen saith niwrnod ar ôl newid o'r fath.

Hysbysu am Gollfarnau

15. Rhaid i'r gyrrwr (cyn pen saith niwrnod ar ôl cael collfarn) hysbysu'r Cyngor, yn ysgrifenedig am unrhyw gollfarn a phob collfarn a ddyfarnwyd iddo/iddi (gan gynnwys collfarnau'n ymwneud â Rheoliadau a Deddfau Traffig Ffyrdd, anonestrwydd, anweddustra neu drais)

Eiddo Coll

16. Rhaid i'r gyrrwr yn union ar ôl y daw hurio i ben neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny, archwilio'r cerbyd yn ofalus am unrhyw eiddo a allai fod wedi cael ei adael yno drwy ddamwain.
17. Os bydd unrhyw un a gludwyd yn y cerbyd yn gadael eiddo ynddo drwy ddamwain ac y daw'r gyrrwr o hyd i'r eiddo neu y'i rhoddir i'r gyrrwr gan rywun arall, rhaid i'r gyrrwr gludo'r eiddo, cyn gynted ag y bo modd ac o leiaf cyn pen 48 awr (os na chaiff ei hawlio cyn hynny gan berchennog yr eiddo neu ar ei ran) i un o swyddfeydd yr heddlu yn y rhanbarth gan adael yr eiddo yng ngofal y Swyddog â Gofal, ar ôl i'r gyrrwr gael derbynneb gan y swyddog am yr eiddo.
18. Bydd gan y gyrrwr yr hawl i gael gan y sawl y dychwelir yr eiddo coll ato, swm sy'n gyfwerth â Phum Ceiniog am bob punt o werth yr eiddo neu gost y daith o'r man lle canfuwyd yr eiddo coll i'r swyddfa heddlu honno, pa bynnag swm fo fwyaf, ond ni chaiff y gyrrwr dderbyn mwy na Phum Punt.

Derbynebion Ysgrifenedig

19. Os gofynna'r huriwr iddo wneud hynny, rhaid i'r gyrrwr roi derbynneb ysgrifenedig i'r huriwr am yr hyn a dalwyd am y daith.

Cludo Anifeiliaid

20. Ni chaniateir i'r gyrrwr gludo, mewn cerbyd trwyddedig, unrhyw anifail sy'n eiddo iddo/iddi neu yn ei (g)ofal neu sy'n eiddo i berchennog neu weithredwr y cerbyd neu yn ei ofal, a dim ond yng nghefn y cerbyd y ceir cludo anifail sy'n eiddo i'r teithiwr neu sydd yn ei ofal a hynny fel y gwêl y gyrrwr yn dda.

Bod yn brydlon

21. Os yw'r gyrrwr yn gwybod yr huriwyd y cerbyd i fod mewn man penodol ar amser penodol neu os cafodd gyfarwyddyd gan weithredwr neu berchennog y cerbyd i fod mewn man penodol ar amser penodol, rhaid i'r gyrrwr fod yn y man penodol hwnnw ar yr amser penodol hwnnw yn brydlon, oni bai fod achos digonol sy'n ei atal rhag gwneud hynny neu'n achosi oedi cyn iddo wneud hynny.

Prisiau

22. Os oes mesurydd tacsï wedi ei osod yn y cerbyd hurio preifat y mae'r gyrrwr yn ei yrru, rhaid i'r gyrrwr beidio â pheri i'r pris a gofnodir arno gael ei ganslo na'i guddio hyd nes y bydd yr huriwr wedi cael cyfle rhesymol i'w weld ac i dalu am y daith (oni bai fod credyd i'w roi).
23. Rhaid i'r gyrrwr beidio â mynnu gan yr huriwr dâl sy'n fwy na'r hyn y cytunodd yr huriwr a'r gweithredwr arno ar gyfer yr hurio hwnnw neu os oes mesurydd tacsï wedi ei osod yn y cerbyd ac nad oes cytundeb ymlaen llaw am bris y daith, rhaid i'r gyrrwr beidio â mynnu tâl sy'n fwy na'r pris a ddangosir ar wyneb y mesurydd tacsï.

Troseddau

24. Bydd unrhyw un sy'n cyflawni trosedd yn erbyn unrhyw un o ddarpariaethau Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol (Amrywiol Ddarpariaethau) 1976 na

ddarperir cosb yn benodol ar ei chyfer, yn agored i dderbyn collfarn ddiannod sef dirwy lefel 3 neu lai.

Oedran Gyrwyr/Trwydded gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)

25. Rhaid i'r gyrrwr fod yn 21 mlwydd oed ond nid yn hŷn na 70 mlwydd oed. Hefyd, rhaid i'r gyrrwr fod am o leiaf 2 flynedd cyn dyddiad cyflwyno'r cais, yn ddeiliad trwydded yrru lawn, a roddwyd yn unol â Deddf Traffig Ffyrdd 1972 ac sy'n caniatáu iddo/iddi yrru car.
26. Gellir rhoi trwydded i yrrwr sy'n gyrru'n rhan-amser, ond mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod rhoi'r drwydded pan fo'r ymgeisydd eisoes yn cael ei gyflogi yn yrrwr mewn rhyw weithgaredd arall e.e. gyrrwr bws neu yrrwr trafndiaeth.

Archwiliadau Meddygol

27. Rhaid i bob ymgeisydd sy'n gwneud cais o'r newydd am drwydded gyrrwr gyflwyno i Swyddog Awdurdodedig y Cyngor dystiolaeth fod yr ymgeisydd wedi cael archwiliad meddygol lai na phedair wythnos cyn dyddiad y cais a dylai'r dystiolaeth honno fod ar ffurf tystysgrif a lofnodwyd gan Feddyg Teulu yr ymgeisydd yn nodi bod yr ymgeisydd yn ddigon iach i yrru cerbyd hacnai/cerbyd hurio preifat.
28. Bydd Tystysgrif Feddygol a gyflwynir wrth ymgeisio am y drwydded gyrrwr, yn ddilys o'r adeg y caniateir y drwydded honno am gyfnod o dair blynedd i yrwyr 21–59 oed ac am flwyddyn i yrwyr sy'n 60 oed neu'n hŷn.
29. Os oes toriad yng nghyfnod y drwydded, wrth ailymgeisio, bydd y dystysgrif feddygol yn dal i fod yn ddilys oni bai fod amgylchiadau'r unigolyn yn golygu ei bod yn angenrheidiol cael ail dystysgrif feddygol.
30. Mae hawl gan y Cyngor i farnu ei bod yn angenrheidiol i ymgeisydd sy'n gwneud cais am adnewyddu ei drwydded gael archwiliad meddygol arall.